

CANLLAW APELIO AR GYFER SAFLEOEDD O  
DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG  
(SoDdGA)

2019

## 1. Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn cwmpasu'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi gwrthod rhoi caniatâd neu wedi rhoi caniatâd ag amodau os ydynt yn credu y gall eich gweithgarwch arfaethedig, fel aredig neu dynnu planhigion, ddifrodi safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA). Mae'r arweiniad hwn yn esbonio'r cefndir deddfwriaethol, yn tynnu'r cyhoeddiadau amrywiol sy'n berthnasol i'r broses hon ynghyd, ac yn amlygu rhai o'r materion penodol a all fod yn destun i'r apêl. Credwyd bod y wybodaeth hon yn gywir adeg ei chyhoeddi ac mae'n ymwneud â gweithdrefnau yng Nghymru yn unig, ond nid oes unrhyw statws cyfreithiol i'r arweiniad.

Mae Adran 28F Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981), fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 9 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn rhoi'r hawl i chi apelio yn erbyn penderfyniad a wneir gan CNC. Mae'r gweithdrefnau apelio wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apeliadau) (Cymru) 2002 (Rheoliadau 2002).

## 2. Pwy all apelio

Gallwch apelio fel perchennog neu breswilydd SoDdGA:

- os gwrthodwyd caniatâd;
- os nad ydych yn cytuno â'r amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd;
- os nad yw CNC wedi rhoi ei benderfyniad i chi cyn pen 4 mis o dderbyn eich cais (y gallwch ei drin fel gwrthod rhoi caniatâd) neu erbyn unrhyw ddyddiad dilynol arall y cytunwyd arno â CNC; ac
- os yw caniatâd blaenorol wedi'i newid neu ei dynnu'n ôl.

## 3. Terfynau amser ar gyfer apeliadau

Mae gennych ddeufis o ddyddiad hysbysiad CNC, neu erbyn dyddiad estynedig y cytunwyd arno â CNC, i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Os na fyddwch wedi derbyn penderfyniad gan CNC cyn pen 4 mis o'r dyddiad y gwnaethoch anfon eich cais am ganiatâd, rhaid i chi apêl cyn pen deufis ar ôl y 4 mis hynny, neu erbyn dyddiad estynedig y cytunwyd arno â CNC.

## 4. Cyn i chi apelio

Efallai y gallech osgoi apêl drwy drafod y rhesymau pam yr hoffech ymgymryd â'r gweithgarwch â CNC.

Efallai y byddwch yn gallu cytuno ar estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer apelio â CNC e.e. os ydych yn gweithio i osgoi'r angen am apêl ffurfiol. Fodd bynnag, rhaid i chi gytuno ar unrhyw estyniad yn ysgrifenedig cyn i'r cyfnod apelio o ddeufis ddod i ben. Os byddwch yn apelio yn y pen draw, bydd angen i chi anfon copi o'r cytundeb hwn at yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd â'ch apêl.

## 5. Cyflwyno apêl

Dylech gyflwyno eich apêl ar y ffurflen apêl briodol a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Er nad oes unrhyw ofyniad statudol i gyflwyno ffurflen apêl, mae'n helpu i sicrhau eich bod yn cyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol. Gallwch gael y ffurflen apêl drwy gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio:

Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0303 444 5940  
E-bost: [cymru@planninginspectorate.gov.uk](mailto:cymru@planninginspectorate.gov.uk)

Mae'r arweiniad a'r ffurflen apêl hon ar gael ar-lein hefyd yn:  
<https://llyw.cymru/apeliadau-cefn-gwlad-hawliau-mynediad-hawliau-tramwy>

Rhaid i chi sicrhau bod holl rannau'r ffurflen apêl wedi'u llenwi'n gywir. Gallai unrhyw gamgymeriadau ar y ffurflen apêl arwain at oedi wrth ddilysu eich apêl.

### Yr Apelydd

Gall eich apêl gael ei chyflwyno yn enw'r ymgeisydd a gyflwynodd y cais am ganiatâd i CNC yn unig.

Dylech lenwi ffurflen apêl ar wahân ar gyfer pob cais neu ganiatâd.

### Dewis Gweithdrefn

Bydd y ffurflen apêl yn gofyn am eich dewis gweithdrefn ar gyfer penderfynu'r apêl. Mae tri dewis: sylwadau ysgrifenedig; gwrandawriad; neu ymchwiliad.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n ystyried eich dewis, ond efallai y bydd yn penderfynu y dylai'r apêl ddilyn gweithdrefn wahanol os yw'r farn ei bod yn fwy priodol i'r achos. Er enghraifft, os yw eich cais yn gymhleth iawn neu o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, neu os bydd angen i Arolygydd groesholi nifer o dystion, mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n fwyaf tebygol o ddewis ymchwiliad. Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau wedi'i hamlinellu isod yn yr adran "Gweithdrefnau Apêl".

Os bydd unrhyw barti'n gofyn am gael ei glywed mewn cysylltiad â'r apêl, rhaid cael gwrandawriad neu ymchwiliad.

Pa bynnag weithdrefn y bydd yr apêl yn ei dilyn, bydd Arolygydd o'r Arolygiaeth Gynllunio'n ystyried eich achos ac yn ysgrifennu adroddiad ar sail tystiolaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

### Sail yr Apêl

Bydd angen i chi esbonio pam rydych yn anghytuno â CNC yn gwrthod rhoi caniatâd i chi. Mae'r rhesymau y byddwch yn eu rhoi yn cael eu galw'n 'sail yr apêl'. Dylech geisio rhoi cymaint â phosibl o fanylion.

Os ydych yn apelio yn erbyn methiant CNC i benderfynu ar eich cais am ganiatâd, bydd yr apêl yn erbyn gwrthodiad tybiedig. Dylech esbonio pam rydych cyn credu y dylai'r apêl gael ei chaniatáu a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae anghytundeb rhyngoch chi a CNC. Dylech geisio rhoi cymaint â phosibl o fanylion.

Byddwch yn cael cyfle i ddarparu datganiadau ategol e.e. safbwyntiau arbenigol, yn ddiweddarach yn y broses. Fodd bynnag, os na fyddwch o leiaf yn crybwyll eich holl brif resymau wrth i chi wneud cais am apêl, gallai wneud y broses yn hwy ac efallai y bydd rhaid i chi dalu costau.

### Dogfennau i'w cynnwys

Rhaid i chi anfon y dogfennau canlynol at yr Arolygiaeth Gynllunio pan fyddwch yn apelio:

- yr hysbysiad yr anfonodd CNC atoch pan ddynodwyd eich tir yn SoDdGA;
- y cais am ganiatâd y gwnaethoch ei gyflwyno i CNC;
- y llythyr yr anfonodd CNC atoch i roi gwybod i chi ei fod wedi gwrthod rhoi caniatâd, gan gynnwys y rhesymau a roddodd i chi ac unrhyw fapiau a chynlluniau yr anfonodd atoch;
- unrhyw ohebiaeth rhyngoch chi a CNC rydych yn bwriadu dibynnu arno;
- copi o'ch cytundeb â CNC i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer yr apêl y tu hwnt i ddeufis, os oes gennych un a'ch bod yn apelio ar ôl y cyfnod hwnnw (rhaid i'n hysbysiad o apêl gael ei dderbyn cyn pen yr amser estynedig cytûn);
- llythyr cofrestru CNC yn cydnabod ei fod wedi derbyn/dilysu eich cais am ganiatâd.

Os bydd unrhyw ddogfen y byddwch yn ei chyflenwi yn cyfeirio at unrhyw ddogfen arall (fel map, llun neu adroddiad, p'un a y'i gyhoeddwyd ai peidio), rhaid i chi ddarparu copi o'r ddogfen honno hefyd.

Os hoffech gyflwyno unrhyw ddogfennau polisi sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein, mae'n ddigon i chi roi enw'r ddogfen a chyfeirio at yr adran berthnasol. Gallwch gyflwyno dyfyniadau o ddogfennau hefyd er mwyn arbed ar faint o waith papur y mae angen ei gyflwyno.

**Bydd unrhyw ddogfennau byddwch yn eu cyflwyno yn cael eu rhannu gan yr asiantaethau a'r partïon sy'n gysylltiedig â'ch apêl, ac ar gael i'r cyhoedd. Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol oni bai eich bod yn fodlon iddi gael ei gweld – ac, os byddwch yn cyflwyno manylion am bobl eraill, gwiriwch eu bod yn fodlon i chi wneud hynny'n gyntaf.**

## 6. Camau cyntaf ar gyfer pob apêl

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn asesu dilysrwydd eich apêl. Os oes dogfennau ar goll, efallai bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifennu atoch i ofyn am y ddogfen goll/dogfennau coll cyn pen y cyfnod apelio. Os na fydd yn derbyn y dogfennau hyn, neu os caiff yr apêl ei chyflwyno y tu hwnt i'r cyfnod apelio, bydd yr apêl yn cael ei hystyried yn annilys.

Pan fydd eich apêl yn ddilys, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cysylltu â CNC i gynnal ymgynghoriad ar gyfer yr apêl. Cyn pen 14 diwrnod o dderbyn llythyr yr Arolygiaeth Gynllunio, mae'n ofynnol i CNC anfon hysbysiad<sup>1</sup> at unrhyw un a wnaeth sylwadau ac unrhyw un sydd â buddiant digonol yn yr apêl.

Rhaid i'r hysbysiad:

- nodi'r SoDdGA y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;
- bod â dyddiad arno;
- cynnwys copi o'r hysbysiad apelio ac unrhyw hysbysiad o benderfyniad;
- datgan, cyn pen 28 diwrnod yn dechrau o ddyddiad yr hysbysiad, y gall y derbynydd –
  - i. wneud sylwadau'n ysgrifenedig i'r Arolygiaeth Gynllunio, a chaiff copïau o'r sylwadau hynny eu darparu i'r ddau barti i'r apêl; a
  - ii. gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Arolygiaeth Gynllunio i gael ei hysbysu am benderfyniad yr apêl.
- datgan os caiff gwrandawriad neu ymchwiliad lleol ei gynnal, bydd derbynydd sy'n gwneud sylwadau yn cael ei hysbysu am ddyddiad y gwrandawriad neu'r ymchwiliad.

Yn ogystal â rhoi gwybod i unigolion â buddiant yn yr apêl, cyn pen 28 diwrnod<sup>2</sup> o lythyr yr Arolygiaeth Gynllunio, rhaid i CNC anfon y canlynol at yr Arolygiaeth Gynllunio ac atoch chi hefyd:

- datganiad ynghylch p'un a yw'n gwrthwynebu'r apêl ac, os ydyw, y rhesymau am hynny;
- copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol;
- copïau o unrhyw sylwadau a wnaed gan unigolion â buddiant;
- copi o'r hysbysiad a anfonwyd dan reoliad 7(1) Rheoliadau 2002, ynghyd â datganiad yn cynnwys enwau a chyfeiriadau'r derbynyddion ac sy'n dangos yn glir y dyddiad y'i hanfonwyd; a
- datganiad ynghylch p'un a -
  - (i) hoffai gael ei glywed gan yr Arolygydd mewn ymchwiliad neu wrandawriad;
  - (ii) os cytunir ar wrandawriad, p'un a yw'n gwrthwynebu i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat, os bydd yr apelydd yn gofyn am hynny.

---

<sup>1</sup> Rheoliad 7(1) Rheoliadau 2002

<sup>2</sup> Rheoliad 8 Rheoliadau 2002

## 7. Gweithdrefnau apêl

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifennu atoch chi a CNC i roi gwybod am ddyddiad dechrau'r apêl. Bydd y llythyr yn cadarnhau manylion cyswllt y swyddog achos a'r weithdrefn a fydd yn cael ei mabwysiadu. Y dyddiad dechrau yw'r dyddiad y mae'r amserlen yn dechrau ar gyfer cyflwyno sylwadau pellach, a bydd y llythyr yn amlinellu'r amserlen sy'n berthnasol i chi a CNC. **Y parti sy'n gyfrifol am gadw at yr amserlen hon – ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n anfon llythyrau atgoffa.**

### **Gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig**

Mae'r weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin ag apêl yn cyfnewid datganiad rhyngoch chi a CNC, wedi'i ddilyn gan ymweliad â'r safle gan Arolygydd. Fel arfer, dyma'r ffordd gyflymaf, symlaf a mwyaf cost effeithiol i benderfynu ar apêl. Mae'r broses sylwadau ysgrifenedig wedi'i hamlinellu isod yn unol â Rheoliad 13 Rheoliadau 2002.

### **Datganiad achos CNC**

Rhaid i CNC anfon copi o'i ddatganiad achos atoch chi a'r Arolygiaeth Gynllunio, sy'n amlinellu ei ddadleuon, cyn pen 4 wythnos o'r dyddiad dechrau. Rhaid i CNC anfon copi at unrhyw barti arall, yn unol â rheoliad 7(1)(b) Rheoliadau 2002.

Nid oes rhaid i ddatganiad CNC fod mewn unrhyw fformat penodol a gellir ei gyflwyno ar bapur neu'n electronig. Dylai datganiad achos fod yn gryno a chanolbwyntio ar y prif faterion. Dylai amlinellu'r ffeithiau allweddol, yr ymresymiad a'r casgliadau sydd eu hangen i gyflwyno'r achos ar ffurf resymegol. Dylai'r datganiad gynnwys rhestr o ddogfennau ategol, a dylai'r dogfennau hynny fod wedi'u labelu'n glir. Ni ddylai gynnwys fersiynau llawn o ddogfennau polisi sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae angen i'r datganiad gyfeirio at baragraffau penodol yn unig neu roi dyfyniadau o ddogfennau er mwyn lleihau'r gwaith papur.

### **Datganiad achos yr apelydd**

Cyn pen 4 wythnos o dderbyn datganiad achos CNC, rhaid i chi anfon copi o'ch datganiad achos at CNC a'r Arolygiaeth Gynllunio, sy'n amlinellu eich dadleuon. Rhaid i chi anfon copi at unrhyw barti arall hefyd, yn unol â rheoliad 7(1)(b) Rheoliadau 2002.

Nid oes rhaid i'ch datganiad fod mewn unrhyw fformat penodol a gellir ei gyflwyno ar bapur neu'n electronig. Dylai datganiad achos fod yn gryno a chanolbwyntio ar y prif faterion. Dylai amlinellu'r ffeithiau allweddol, yr ymresymiad a'r casgliadau sydd eu hangen i gyflwyno'r achos ar ffurf resymegol. Dylai'r datganiad gynnwys rhestr o ddogfennau ategol, a dylai'r dogfennau hynny fod wedi'u labelu'n glir. Ni ddylai gynnwys fersiynau llawn o ddogfennau polisi sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae angen i'r datganiad gyfeirio at baragraffau

penodol yn unig neu roi dyfyniadau o ddogfennau er mwyn lleihau'r gwaith papur.

Os byddwch yn dewis peidio â chyflwyno datganiad achos, cymerir bod sail eich apêl yn cynnwys eich datganiad llawn ar gyfer yr apêl.

### Sylwadau pellach

Efallai y bydd angen rhagor o sylwadau ar yr Arolygiaeth Gynllunio gennych chi a CNC, os caiff ei ystyried yn angenrheidiol yn ystod y broses apelio. Mae hyn yn cynnwys sylwadau ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan unrhyw unigolyn arall ar ôl y dyddiad dechrau.

### Ymweliad â'r safle

Os bydd angen ymweld â'r safle, mae'n arfer i chi a chynrychiolydd o CNC fynd i ymweld â'r safle gyda'r Arolygydd. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn caniatáu unrhyw drafodaeth ynghylch rhinweddau'r achos a bydd yn cyfyngu cwestiynau i nodweddion ffisegol y safle ei hun.

### **Gweithdrefn gwrandawriad**

Mae gwrandawriad yn caniatáu i chi a CNC gyflwyno eich achos mewn awyrgylch mwy hamddenol a llai ffurfiol nag mewn ymchwiliad (gweler isod). Fel arfer, caiff ei gynnal ar ffurf trafodaeth dan arweiniad yr Arolygydd, wedi'i dilyn gan ymweliad â'r safle. Os bydd yr Arolygydd yn penderfynu felly, gellir ymestyn y drafodaeth i'r safle. Mae proses y gwrandawriad wedi'i hamlinellu isod, yn unol â Rheoliad 14 Rheoliadau 2002.

### Y terfyn amser 6 wythnos – datganiadau achos

Rhaid i chi a CNC anfon datganiad achos at eich gilydd a'r Arolygiaeth Gynllunio, sy'n amlinellu eich dadleuon, cyn pen 6 wythnos o'r dyddiad dechrau. Hefyd, rhaid i chi a CNC anfon copi at unrhyw barti arall yn unol â Rheoliad 7(1)(b) a Rheoliadau 2002.

Nid oes rhaid i'r datganiad fod mewn unrhyw fformat penodol a gellir ei gyflwyno ar bapur neu'n electronig. Dylai datganiad achos fod yn gryno a chanolbwyntio ar y prif faterion. Dylai amlinellu'r ffeithiau allweddol, yr ymresymiad a'r casgliadau sydd eu hangen i gyflwyno'r achos ar ffurf resymegol. Dylai'r datganiad gynnwys rhestr o ddogfennau ategol, a dylai'r dogfennau hynny fod wedi'u labelu'n glir. Ni ddylai gynnwys fersiynau llawn o ddogfennau polisi sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae angen i'r datganiad gyfeirio at baragraffau penodol yn unig neu roi dyfyniadau o ddogfennau er mwyn lleihau'r gwaith papur.

### Y terfyn amser 9 wythnos – sylwadau terfynol

Rhaid i chi a CNC anfon unrhyw sylwadau terfynol sydd gennych ar eich datganiadau achos eich gilydd at eich gilydd a'r Arolygiaeth Gynllunio. Rhaid i chi a CNC anfon copi at unrhyw barti arall hefyd, yn unol â Rheoliad 7(1)(b) Rheoliadau 2002.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n disgwyl i chi a CNC fod wedi rhoi'r holl dystiolaeth yn sail yr apêl a'r datganiadau achos, felly ni ddylech ddefnyddio'r cyfle i wneud sylwadau erbyn y terfyn amser 9 wythnos yn fodd i gyflwyno deunydd newydd neu ddadleuon y dylid fod wedi'u cynnwys yn y datganiad 6 wythnos. **Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n gwrthod ac yn dychwelyd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn os byddant yn codi materion newydd.**

#### Trefniadau gwrandawriad

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cadarnhau trefniadau'r gwrandawriad gyda chi â CNC heb fod yn hwyrach na 6 wythnos cyn y gwrandawriad. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn rhoi gwybod i unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud sylwadau.

CNC sy'n gyfrifol am drefnu lleoliad addas ar gyfer y gwrandawriad ac, o leiaf 3 wythnos cyn y gwrandawriad, mae'n ofynnol i CNC roi hysbysiad o'r apêl yn y wasg leol.

Gallwch ofyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, os oes angen trafod unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu sensitif. Bydd unrhyw gais tebyg yn dibynnu ar ddisgresiwn yr Arolygydd.

#### Gweithdrefn ymchwiliad

Gallwch chi neu CNC ofyn am ymchwiliad cyhoeddus, neu gall yr Arolygiaeth Gynllunio benderfynu bod angen un, ond dylai'r weithdrefn hon fod yn berthnasol i achosion eithriadol yn unig. Er enghraifft, pan gyflwynir tystiolaeth dechnegol arbennig o gymhleth neu pan allai fod angen croesholi, neu os oes nifer fawr o gyflwyniadau neu gryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd.

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad yr un fath â'r amserlen ar gyfer gwrandawriad. Mae unrhyw gamau ychwanegol wedi'u hamlygu isod.

#### Proflenni tystiolaeth

Rhaid i chi a CNC anfon proflen dystiolaeth at eich gilydd a'r Arolygiaeth Gynllunio heb fod yn hwyrach na 4 wythnos cyn yr ymchwiliad. Rhaid i chi a CNC anfon copi at unrhyw barti arall hefyd, yn unol â rheoliad 7(1)(b) Rheoliad 2002.

Datganiad ysgrifenedig o'r dystiolaeth mae tyst yn bwriadu ei roi yn yr ymchwiliad yw proflen dystiolaeth ac, os yw'n fwy na 1,500 gair, dylai gynnwys crynodeb nad yw'n fwy na 10% o hyd y broflen hefyd. Mae datganiad tir cyffredin yn rhestr o'r holl faterion y mae'r apelydd a CNC yn cytuno amdanynt.

#### Trefniadau ymchwiliad

Mae ymchwiliad yn fwy ffurfiol na gwrandawriad ac mae fel arfer yn dechrau â datganiadau agoriadol cryno gennych chi a CNC. Gellir galw tystion i roi



tystiolaeth, y gall yr ochr arall ei chroesholi. Fel arfer, bydd CNC yn cyflwyno ei achos yn gyntaf. Gall partïon eraill â buddiant fynychu'r ymchwiliad hefyd, a byddant yn cael mynegi eu barn, fel arfer.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cadarnhau trefniadau'r ymchwiliad gyda chi a CNC heb fod yn hwyrach na 6 wythnos cyn yr ymchwiliad. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n rhoi gwybod i unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud sylwadau hefyd.

CNC sy'n gyfrifol am drefnu lleoliad addas ar gyfer yr ymchwiliad ac, o leiaf 3 wythnos cyn yr ymchwiliad, mae'n ofynnol i CNC roi hysbysiad o'r apêl yn y wasg leol.

Gallwch ofyn i'r ymchwiliad gael ei gynnal yn breifat, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, os oes angen trafod unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu sensitif. Bydd unrhyw gais tebyg yn dibynnu ar ddisgresiwn yr Arolygydd.

## **8. Tynnu eich apêl yn ôl**

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl ar unrhyw adeg nes i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar eich apêl. Dylech gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio cyn gynted ag y byddwch yn penderfynu tynnu eich apêl yn ôl, a rhaid i chi gadarnhau eich penderfyniad yn ysgrifenedig.

Os byddwch yn tynnu eich apêl yn ôl ar ôl i wrandawriad neu ymchwiliad gael ei drefnu, ac y gall CNC neu barti arall â buddiant ddangos eich bod wedi ymddwyn yn afresymol, efallai y bydd rhaid i chi dalu costau.

## **9. Atal apêl**

Os gallwch ddangos eich bod yn cydweithio â CNC i ddod i gytundeb, efallai y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cytuno i atal eich apêl – sydd hefyd yn cael ei alw'n ddirymu apêl. Efallai yr hoffech wneud hyn os oes gwybodaeth newydd ar gael a all ganiatáu i chi ddod i gytundeb.

Os ydych am i'r apêl gael ei dirymu, dylech drafod hyn â CNC ac yna ysgrifennu at yr Arolygiaeth Gynllunio, a fydd yn gofyn am sylwadau gan CNC. Gall CNC wneud cais i ddirymu apêl hefyd. Os felly, gofynnir i chi roi eich sylwadau chi.

Pan fydd eich apêl wedi'i dirymu, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n gofyn am ddiweddariadau gennych chi a CNC. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n dad-ddirymu'r apêl os yw o'r farn na fydd eich trafodaethau'n datrys y materion.

## **10. Gohirio gwrandawriad neu ymchwiliad**

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio ond yn gohirio mewn amgylchiadau eithriadol ac os oes amser i roi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig ag ef. Er enghraifft, gallai'r Arolygiaeth Gynllunio gytuno i ohirio os byddwch chi a CNC yn dod o hyd i dir

cyffredin newydd mewn perthynas â'r materion neu os na all tyst pwysig fod yn bresennol. Mae gohirio'n debygol o achosi oedi sylweddol cyn penderfynu ar eich apêl.

## **11. Costau**

Nid oes unrhyw ffi ar gyfer cyflwyno apêl, ond disgwylir i bob parti dalu ei dreuliau ei hun – e.e. ar gyfer costau cyfreithiol, teithio a chostau gweinyddol.

Gallai Gweinidogion Cymru ddyfarnu costau pan gynhelir gwrandawriad neu ymchwiliad ac mae ymddygiad afresymol un parti – er enghraifft cyflwyno tystiolaeth yn hwyr – yn arwain at dreuliau diangen. Mae rhagor o wybodaeth am ddyfarnu costau i'w gweld yn Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru – Atodiad Adran 12: Dyfarnu Costau:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adran-12-atodiad-dyfarnu-costau.pdf>

Gellir dyfarnu costau i chi hefyd os ydych yn apelio yn erbyn tynnu caniatâd yn ôl neu ei addasu oherwydd eich bod yn amddiffyn hawliau a bennwyd mewn caniatâd cynharach, yn debyg i apelio yn erbyn gorchymyn prynu gorfodol. Yn y sefyllfa hon, mae'n fwyaf tebygol y caiff costau eu dyfarnu i chi os caiff eich apêl ei chadarnhau – nid oes rhaid dyfarnu bod CNC wedi ymddwyn yn afresymol.

Gellir cyflwyno cais am gostau cyn neu yn ystod gwrandawriad neu ymchwiliad.

## **12. Penderfyniadau**

Wedi i broses yr apêl gael ei chwblhau, bydd yr Arolygydd penodedig yn ysgrifennu adroddiad at Weinidogion Cymru yn amlinellu ei (h)argymhellion. Nod yr Arolygiaeth Gynllunio yw cyflwyno adroddiad yr Arolygydd i Lywodraeth Cymru heb fod yn hwyrach na 5 wythnos ar ôl ymweld â'r safle (7 wythnos ar gyfer gwrandawriad neu ymchwiliad). Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried adroddiad ac argymhellion yr Arolygydd ochr yn ochr â'r ddyletswydd i:

- gymryd camau rhesymol i ddiogelu a gwella SoDdGAau ymhellach (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd)
- ystyried dymunoldeb diogelu harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad (Deddf Cefn Gwlad 1968)
- ystyried anghenion amaethyddiaeth a choedwigaeth, a buddiannau economaidd a chymdeithasol ardaloedd gwledig (Deddf Cefn Gwlad 1968)
- cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar Ewrop pan fydd SoDdGA yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) hefyd neu'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) (neu'n ymgeisydd ar gyfer ACA, safle o bwysigrwydd cymunedol, yn ddarpar AGA neu'n safle Ramsar) (Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, fel y'i diwygiwyd)

Byddwch yn cael penderfyniad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – bydd yn cynnwys crynodeb o gasgliadau Gweinidogion Cymru, a byddwch yn cael copi o adroddiad yr Arolygydd. Bydd CNC a phartïon â buddiant yn cael copi o'r penderfyniad a'r adroddiad gan Lywodraeth Cymru hefyd.

### **13. Adborth a chwynion**

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n croesawu adborth cadarnhaol a negyddol am brofiadau pobl o ymdrin â'r sefydliad.

Y tîm Ansawdd sy'n ymdrin â chwynion yn erbyn adroddiad Arolygydd neu'r Arolygydd, neu'r modd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gweinyddu achos. Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn yn drylwyr ac yn ddiuedd.

### **14. Sut mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol**

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n derbyn data personol gan yr apelydd, CNC ac unigolion eraill â buddiant sy'n rhoi sylwadau. Fel arfer, bydd y data personol yn cynnwys enw a manylion cyswllt, ac unrhyw ddata personol arall sydd wedi'i gynnwys yn eu sylwadau.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'r anfon copïau o'r sylwadau a geir at yr apelydd, CNC ac unrhyw barti statudol arall i'r apêl.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio i'w gweld yn <https://llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio> neu ar gais. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y polisi, neu os hoffech ofyn am eich data personol, cysylltwch â'r Arolygiaeth Gynllunio.